# Cylch Gwaith
# Pwyllgor Archwilio a Risg
# Comisiynydd y Gymraeg

Dyddiad cyhoeddi:
Mehefin 2025

Dyddiad adolygu:
Mehefin 2026

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

# Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011, yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae pedair egwyddor sy'n sail i waith y Comisiynydd, sef:

- Statws swyddogol y Gymraeg yng Nghymru
- Y dyletswyddau i ddefnyddio'r Gymraeg sydd wedi eu gosod (neu a all gael eu gosod) drwy gyfraith, a'r hawliau sy'n deillio o allu gorfodi'r dyletswyddau hynny
- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0345 6033 221
- E-bost: post@cyg-wlc.cymru
- Gwefan: comisiynyddygymraeg.cymru

# Cynnwys


1 Cyflwyniad ..... 4
2 Recriwtio ..... 5
3 Aelodaeth ..... 5
4 Hyfforddiant ..... 6
5 Gwrthdaro buddiannau ..... 6
6 Rhoddion a Lletygarwch ..... 6
7 Cyffredinol ..... 7
8 Rhybudd am gyfarfodydd ..... 7
9 Cyfarfodydd ..... 8
10 Trefn busnes ..... 8
11 Ymddygiad ..... 9
12 Rheolau cyffredinol ..... 9
13 Cyswllt / Hygyrchedd ..... 9
14 Awdurdod ..... 10
15 Cyhoeddi Cofnodion ..... 10

# 1 Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cylch Gorchwyl hwn yn cyfeirio yn benodol at Bwyllgor Archwilio a Risg Comisiynydd y Gymraeg. Y Comisiynydd sydd yn gyfrifol am baratoi ac adolygu'r Cylch Gorchwyl hwn.

1.2 Prif nod Comisiynydd y Gymraeg yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Wrth weithio i gyflawni'r nod hwn mae'r Comisiynydd wedi ymrwymo'n gyfreithiol i reoli'r adnoddau a ddarparwyd yn briodol ac i sicrhau cyflawni ei rwymedigaethau statudol. Endid corfforaethol un dyn yw'r Comisiynydd, ac mae angen iddo sicrhau bod ei swyddfa'n cael ei rheoli a'i llywodraethu'n briodol.

1.3 Mae Comisiynydd y Gymraeg wedi sefydlu Pwyllgor Archwilio a Risg fel pwyllgor sefydlog i'w gefnogi a chynorthwyo gyda'i gyfrifoldeb dros reoli risg a llywodraethiant. Nid oes unrhyw ofyniad statudol ar Gomisiynydd y Gymraeg i sefydlu Pwyllgor Archwilio a Risg.

1.4 Nod y Pwyllgor Archwilio a Risg yw cynorthwyo Comisiynydd y Gymraeg yn ei rôl fel Swyddog Cyfrifyddu gyda'i gyfrifoldeb drwy graffu ar, a herio'r prosesau strategol ar gyfer risg, rheolaeth a llywodraethiant.

1.5 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynorthwyo Comisiynydd y Gymraeg, fel Swyddog Cyfrifyddu, ar:

- y prosesau strategol ar gyfer risg, cyllid, rheolaeth a llywodraethu a'r Fframwaith Llywodraethu;
- y polisïau cyfrifo, gwerth am arian, y cyfrifon, ac adroddiad blynyddol y gorfforaeth, lefelau o amryfusedd a nodwyd, a llythyr rheoli sylwadau'r swyddog cyfrifyddu at yr archwilwyr allanol;
- y gweithgareddau a gynlluniwyd ac argymhellion yr archwilwyr mewnol a'r archwilwyr allanol;
- ymateb digonol y rheolwyr i faterion a nodwyd yn dilyn archwiliad, gan gynnwys llythyr rheoli'r archwilwyr allanol;
- sicrwydd yn ymwneud â gofynion llywodraethu corfforaethol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg;
- prosesau tendro ar gyfer apwyntio archwilwyr mewnol ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg;
- polisïau gwrth dwyll, prosesau 'chwythu chwiban' a threfniadau ar gyfer ymchwiliadau arbennig;
- sicrhau bod fframwaith boddhaol ac effeithiol ar gyfer rheoli a sicrwydd risg yn ei le.

1.6 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg hefyd yn:

- adolygu ei effeithiolrwydd ei hun gan adrodd ar ganlyniadau'r adolygiad hwnnw i'r Comisiynydd
- adolygu effeithiolrwydd yr archwilwyr mewnol ac allanol yn flynyddol.

1.7 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cyfarfod gyda'r Comisiynydd yn flynyddol i drafod ei adroddiad blynyddol.

1.8 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn rhoi adroddiad llafar ac ysgrifenedig byr i'r Comisiynydd yn flynyddol, i gyd-fynd â chwblhau cyfrifon Comisiynydd y Gymraeg, gan grynhoi'r gwaith a wnaed yn ystod y flwyddyn ac yn datgan barn am reolaeth fewnol a rheoli risg y sefydliad.

# 2 Recriwtio

2.1 Y Comisiynydd fydd yn penderfynu aelodaeth y Pwyllgor.

2.2 Caiff aelodau'r Pwyllgor Archwilio a Risg eu talu'n unol ag Atodiad 1: Ffioedd a Chostau'r Pwyllgor.

# 3 Aelodaeth

Aelodau

3.1 Bydd Comisiynydd y Gymraeg yn penodi o leiaf 3 unigolyn nad ydynt yn gweithio i'r Comisiynydd i fod yn aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg. Gelwir y rhain yn Aelodau.

3.2 Ni fydd aelodau Panel Cynghori Comisiynydd y Gymraeg yn cael bod yn Aelodau o'r Pwyllgor Archwilio a Risg.

3.3 Mae gallu yn y Gymraeg yn hanfodol ar gyfer rôl Aelod.

3.4 Bydd tymor penodiad pob Aelod yn gyfnod o 3 blynedd. Yn amodol ar adolygiad boddhaol, a thrwy gytundeb â'r Comisiynydd, mae'n bosibl y bydd modd adnewyddu'r penodiad am ail dymor, o 3 blynedd yn unig.

3.5 Bydd gan y Pwyllgor drefn flynyddol ar gyfer Rheoli Perfformiad Aelodau.

3.6 Cadeirir y Pwyllgor gan un o'r Aelodau. Bydd y Comisiynydd yn dewis Cadeirydd y Pwyllgor am dymor o dair blynedd (neu i gyd-fynd gyda'i dymor aelodaeth os yn fyrrach).

3.7 Gall y Pwyllgor benodi Aelodau ychwanegol am gyfnod hyd at 12 mis i ddarparu sgiliau, gwybodaeth neu brofiad arbenigol, yn amodol i gytundeb y Comisiynydd.

Y Comisiynydd a'i Staff

3.8 Bydd Comisiynydd y Gymraeg (fel y Swyddog Cyfrifyddu), y Tîm Arwain,yr Uwch Swyddog Cyllid ac Adnoddau a'r Swyddog Llywodraethiant yn mynychu'r cyfarfodydd. Bydd y Swyddog Cefnogi Corfforaethol hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd er mwyn paratoi'r cofnodion.

3.9 Gall y Pwyllgor ofyn i unrhyw swyddog o fewn y sefydliad fynychu cyfarfod i'w gynorthwyo ag unrhyw fater penodol.

Eraill

3.10 Gwahoddir cynrychiolwyr o Swyddfa Archwilio Cymru a'r archwilwyr mewnol i fod yn

bresennol yn y cyfarfodydd.

3.11 Gall y Pwyllgor brynu mewn cyngor arbenigol ar gost y sefydliad, yn amodol ar gyllidebau a gytunwyd gan y Comisiynydd.

# 4 Hyfforddiant

4.1 Bydd gan holl aelodau'r Pwyllgor anghenion hyfforddi a datblygu a bydd y Comisiynydd wedi eu hadnabod mewn sesiynau rheoli perfformiad blynyddol rhwng yr Aelodau a'r Cadeirydd neu sgyrsiau rheolaidd rhwng yr Aelodau a'r Cadeirydd.

4.2 Bydd Aelodau newydd yn derbyn hyfforddiant cynefino i'w helpu i ddeall eu rôl a deall y sefydliad.

# 5 Gwrthdaro buddiannau

5.1 Bydd pob Aelod o'r Pwyllgor (ynghyd â'r Comisiynydd a'i holl staff) yn cwblhau datganiad buddiannau pob chwe mis. Bydd datganiad buddiannau Aelodau'r Pwyllgor, aelodau'r Panel Cynghori, y Comisiynydd, y Dirprwy Gomisiynydd a Thîm Arwain y Comisiynydd yn cael ei gyhoeddi ar wefan y Comisiynydd. Bydd hyn yn hybu tryloywder a llywodraethu chadarn.

5.2 Bydd disgwyl i aelodau (ynghyd â staff y Comisiynydd) roi gwybod i'r Swyddog Llywodraethiant cyn gynted ag sy'n bosib os oes unrhyw newid o ran eu buddiannau.

5.3 Os bydd gan Aelod neu swyddog, neu unrhyw berthynas iddo ef neu hi, ddiddordeb ariannol neu ddiddordeb perthnasol neu sylweddol arall, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, mewn unrhyw fater sy'n ymwneud â'r Pwyllgor, bydd gofyn i'r Aelod neu'r swyddog ddatgelu'r ffaith honno cyn trafod yr eitem honno ac ni fydd yn cymryd rhan wrth drafod y mater, nac yn pleidleisio ar unrhyw gwestiwn mewn cysylltiad ag ef.

5.4 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn penderfynu a fydd datgelu diddordeb felly'n cyfateb i wrthdaro mewn diddordeb a bydd yn penderfynu mewn achosion felly a ddylai'r Aelod neu'r swyddog adael y cyfarfod. Mewn achosion lle mae'r Cadeirydd wedi datgelu diddordeb, y Comisiynydd ddylai farnu a yw hynny'n cyfateb i wrthdaro mewn diddordeb, ac a oes angen i'r Cadeirydd adael y cyfarfod.

# 6 Rhoddion a Lletygarwch

6.1 Mae rhoi neu dderbyn rhodd neu letygarwch yn creu perthynas a allai ddylanwadau ar waith ac annibyniaeth y Comisiynydd. Dylai aelodau'r Pwyllgor osgoi rhoddion neu letygarwch sydd yn ymwneud â'u gwaith fel Aelodau o'r Pwyllgor, neu a all gael eu hystyried o fod yn gysylltiedig â'u haelodaeth o'r Pwyllgor, ag eithrio mewn amgylchiadau cyfyngedig iawn.

6.2 Disgwylir i aelodau'r Pwyllgor gydnabod y gallai'r ffaith i Aelodau dderbyn rhoddion a lletygarwch fod yn agored i graffu. Dylid hysbysebu ysgrifenyddiaeth y Pwyllgor am unrhyw gynigion a wnaed ac unrhyw gynigion a wrthodwyd. Dylid sicrhau fod cofnod o unrhyw roddion neu letygarwch a dderbyniwyd, neu a wrthodwyd yn cael ei wneud ar Gofrestr Rhoddion y Pwyllgor.

# 7 Cyffredinol

7.1 Cadeirydd y Pwyllgor, pan fydd yn bresennol, fydd yn llywyddu yng nghyfarfodydd y Pwyllgor.

7.2 Os bydd y Cadeirydd y Pwyllgor yn absennol, bydd y Pwyllgor yn dewis aelod i lywyddu yn y cyfarfod hwnnw.

7.3 Caiff rhaglen o gyfarfodydd y Pwyllgor ei chytuno gan y Pwyllgor bob blwyddyn, gan nodi lleoliadau'r cyfarfod. Bydd y Pwyllgor yn cyfarfod o leiaf 4 gwaith y flwyddyn.

7.4 Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfodydd ychwanegol fel y gwêl orau.

7.5 Gall Cadeirydd y Pwyllgor alw cyfarfod eithriadol o'r Pwyllgor ar unrhyw adeg.

7.6 Pan fydd Cadeirydd y Pwyllgor yn galw cyfarfod eithriadol o'r Pwyllgor, bydd ef neu hi'n rhoi gwybod ar unwaith i Gomisiynydd y Gymraeg, gan ei hysbysu am y busnes a gaiff ei drafod, a dyddiad ac amseriad y cyfarfod eithriadol.

7.7 Ni fydd cyfarfodydd y Pwyllgor hwn yn agored i'r cyhoedd. Bydd dwy ran i'r cyfarfod: un yn cynnwys yr archwilwyr mewnol ac allanol, a rhan gaeedig sy'n gyfyngedig i aelodau'r Pwyllgor, y Comisiynydd a'i swyddogion. Bydd y rhan gyntaf yn ymwneud â gwaith craidd y Pwyllgor o ran darparu sicrwydd i'r Comisiynydd tra bo'r ail ran yn gyfle i'r Comisiynydd ymgynghori â'r Pwyllgor ar unrhyw fater sy'n ymwneud ag arfer ei swyddogaethau.

1.9 Cymraeg fydd iaith y cyfarfod a bydd cyfieithydd yn bresennol i gyfieithu os bydd hynny'n angenrheidiol er hwylustod i archwilwyr.

7.8 Gall Cadeirydd y Pwyllgor a Chadeirydd Panel Cynghori'r Comisiynydd gyfarfod er mwyn trafod unrhyw fater sydd, yn eu tyb nhw, angen ei drafod.

# 8 Rhybudd am gyfarfodydd

8.1 O leiaf 7 diwrnod calendr cyn cyfarfod o'r Pwyllgor, caiff rhybudd i fynychu'r cyfarfod hwnnw, yn pennu dyddiad ac amser a lleoliad y cyfarfod a'r busnes i'w drafod, ei anfon drwy e-bost neu drwy'r post arferol.

8.2 Ar gyfer pob cyfarfod o'r Pwyllgor (ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig), bydd pob aelod yn derbyn:

- Adroddiad ar gynnydd argymhellion yr archwilwyr mewnol
- Adroddiad cynnydd chwarterol o gynlluniau gweithredol y sefydliad
- Adroddiad yn crynhoi newidiadau sylweddol i Gofrestr Risg Comisiynydd y Gymraeg
- Adroddiad Cyllid
- Adroddiad Eithriadau

8.3 Unwaith y flwyddyn bydd yr aelodau yn derbyn adroddiad cynnydd gan yr Archwilwyr Allanol yn crynhoi'r gwaith a wnaed a'r canfyddiadau.

8.4 O dro i dro, gall y Pwyllgor hefyd dderbyn:

- Cynigion gogyfer Cylch Gorchwyl Archwilio Mewnol
- Adroddiadau gan Bennaeth Archwilio Mewnol
- Cyfrifon blynyddol
- Amcangyfrif blynyddol
- Adroddiad ar ddiwygiadau i bolisïau cyfrifo
- Llythyr Rheoli'r Archwilwyr Allanol
- Adroddiad ar y cydweithio rhwng yr Archwilwyr Mewnol ac Allanol.

# 9 Cyfarfodydd

9.1 Cynhelir cyfarfodydd yn rhithiol neu wyneb yn wyneb.

9.2 Ni wneir unrhyw benderfyniadau yng nghyfarfod y Pwyllgor oni fydd cworwm o 2 o aelodau'r Pwyllgor yn bresennol. Mae Cadeirydd - neu Gadeirydd dros dro y Pwyllgor - yn cyfrif fel un o'r cworwm.

9.3 Yn unol â 9(2) uchod, os bydd y Cadeirydd yn ystod unrhyw gyfarfod o'r Pwyllgor, ac ar ôl cyfrif y personau sy'n bresennol, yn datgan nad oes cworwm yn bresennol, ni fydd y cyfarfod yn gwneud unrhyw benderfyniadau pellach.

9.4 Caiff ystyried unrhyw benderfyniadau angenrheidiol ei ohirio tan ddyddiad a gaiff ei gytuno.

9.5 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn gofyn a yw cofnodion cyfarfod a gynhaliwyd ar ddyddiad penodol i gael eu cymeradwyo fel cofnod cywir.

9.6 Comisiynydd y Gymraeg fydd yn darparu ysgrifenyddiaeth i'r Pwyllgor ac yn llunio cofnodion y Pwyllgor.

9.7 Bydd y cofnodion ar gael yn Gymraeg.

# 10 Trefn busnes

10.1 Ac eithrio mewn amgylchiadau arbennig, bydd y materion islaw yn cael eu trafod ym mhob cyfarfod Pwyllgor:

- cofnodi enwau aelodau sy'n bresennol yn y cyfarfod ar ddalen fynychu, a derbyn ymddiheuriadau am absenoldeb;
- datgan unrhyw ddiddordeb gan unrhyw aelod neu Swyddog;
- dewis aelod i lywyddu os bydd y Cadeirydd yn absennol;
- derbyn a chymeradwyo Cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor fel cofnod cywir, ac ystyried materion sy'n codi;
- derbyn unrhyw faterion neu ohebiaeth y bydd Cadeirydd y Pwyllgor yn dymuno'i chyflwyno gerbron y Pwyllgor;
- materion i'w adrodd gan y Comisiynydd ar sail eithriad
- cyflwyniad gan Swyddfa Archwilio Cymru;
- cyflwyniad gan yr Archwilwyr Mewnol;
- diweddariad o unrhyw ddatblygiadau perthnasol (Archwilwyr Mewnol ac Allanol);

- diweddariad gan y Comisiynydd / Swyddog Cyfrifyddu;
- sefyllfa ariannol y Comisiynydd;
- cyflwyniad gan y Rheolwr Risg;
- ystyried materion neu ddogfennau penodol sy'n ymwneud â gwaith y Pwyllgor sydd wedi eu cymeradwyo gan y Tîm Arwain;
- ystyried unrhyw fusnes arall;
- cadarnhau lleoliad, dyddiad ac amser y cyfarfod nesaf.

# 11 Ymddygiad

11.1 Os bydd unrhyw Aelod yn gyson yn anwybyddu rheolaeth Cadeirydd y Pwyllgor drwy ymddwyn yn afreolaidd, yn amhriodol neu'n dramgwyddus, neu'n fwriadol yn rhwystro busnes Comisiynydd y Gymraeg, gall y Cadeirydd neu unrhyw aelod arall gynnig "na chaiff yr aelod a enwir ei glywed mwyach" neu "bod yr aelod a enwyd yn gadael y cyfarfod" a chaiff y cynnig, os caiff ei eilio, ei gyflwyno a'i benderfynu heb drafodaeth.

# 12 Rheolau cyffredinol

12.1 Gall gweithrediadau'r Pwyllgor gael ei gynnal yn Gymraeg ac yn Saesneg drwy gyfieithydd.

12.2 Gall Aelod godi pwynt yn ymwneud â threfn a bydd ganddo ef neu hi hawl i gael ei glywed. Bydd pwynt sy'n ymwneud â threfn yn ymwneud yn unig â honiad o dorri Rheol Sefydlog, a bydd yr aelod yn pennu'r Rheol Sefydlog a'r ffordd y mae ef neu hi'n ystyried ei fod wedi ei dorri.

12.3 Ni chaiff cynigiad neu ddiwygiad ei drafod oni fydd wedi ei gynnig a'i eilio.

12.4 Un diwygiad i gynigiad yn unig y gellir ei gyflwyno a'i drafod ar y tro. Ni chaiff unrhyw ddiwygiadau pellach eu gwneud nes bydd y cyfarfod wedi trafod a chael gwared â phob diwygiad a gyflwynwyd yn flaenorol. Gall y sawl sy'n llywyddu ganiatáu trafod dau ddiwygiad neu ragor (ond nid pleidleisio arnynt) gyda'i gilydd os teimla y bydd hynny'n hwyluso cynnal y busnes yn briodol.

12.5 Os na chaiff diwygiad ei gario, gellir cyflwyno diwygiadau eraill i'r cynigiad gwreiddiol. Os caiff diwygiad ei gario, bydd y cynigiad fel y cafodd ei gario yn disodli'r cynigiad gwreiddiol a hwnnw wedyn fydd y cynigiad y gellir cyflwyno unrhyw ddiwygiad pellach arno. Pan na chaiff unrhyw ddiwygiad terfynol ei gario, bydd y sawl sy'n llywyddu'n rhoi'r cynigiad perthnasol gerbron i bleidleisio arno.

12.6 Bydd penderfyniad y sawl sy'n llywyddu mewn cyfarfod ar gwestiynau'n ymwneud â threfn, perthnasedd a rheoleidd-dra ac â dehongli Rheolau Sefydlog yn derfynol.

# 13 Cyswllt / Hygyrchedd

13.1 Gall Pennaeth yr Archwilwyr Mewnol a chynrychiolwyr Archwilio Allanol gael cyswllt uniongyrchol a chyfrinachol â Chadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar faterion yn ymwneud yn uniongyrchol â gwaith y Pwyllgor.

13.2 Bydd y Pwyllgor Archwilio a Risg yn cynnal cyfarfod pob chwe mis heb swyddogion yn bresennol gyda'r archwilwyr mewnol a chyfarfod gyda'r archwilwyr allanol.

# 14 Awdurdod

14.1 Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn bwyllgor cynghori i Gomisiynydd y Gymraeg ac nid oes ganddo bwerau gweithredol. Serch hynny mae ganddo'r awdurdod gan y Comisiynydd i ymchwilio i unrhyw un o'r gweithgareddau o fewn ei gylch gorchwyl, a, thrwy'r Cadeirydd, i ofyn am unrhyw wybodaeth neu bapurau mae ei angen gan y Comisiynydd a'i swyddogion, a hefyd gan ei archwilwyr (mewnol ac allanol).

14.2 Bydd Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Risg (neu ei ddirprwy) yn cael mewnbwn i'r broses o benodi archwilwyr mewnol.

# 15 Cyhoeddi Cofnodion

15.1 Bydd cofnodion cryno o gyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Comisiynydd.

15.2 Bydd y cofnodion hyn yn cael eu rhannu gyda'r holl aelodau wedi'r cyfarfod. Bydd yr holl aelodau yn cadarnhau cywirdeb y cofnodion cyn iddynt gael eu cyhoeddi ar y wefan.